

## **Maer 2008-2009**

### **Y Cynghorydd Clive Jones**

Y Cynghorydd Clive T Jones oedd y Maer ar gyfer y flwyddyn 2008/2009 ac mae wedi cynrychioli Ward y Parc ers 2004. Cyn hyn bu'n Gyngorydd ar Ward y Dref rhwng 1995 a 1999.

Ganwyd e yn 27 Stryd Ernest, Merthyr Tudful yn Awst 1943 a byw yno am 36 mlynedd cyn symud i'w gyfeiriad presennol yng Ngerddi'r Llyn. Priododd gyda Jane (Maeres) ym mis Rhagfyr 1973 ac mae ganddynt ferch, Rachel.

Addysgwyd e yn Ysgol Iau Twynnyrodyn ac Ysgol Ramadeg Castell Cyfarthfa. Gadawodd yr ysgol yn 1960 a dechrau gyrfa fel Swyddog Llywodraeth Leol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gyrfa a barhaodd am 33 ½ blwyddyn. Ar ôl gadael Llywodraeth Leol fe'i hapwyntiwyd yn aelod o staff undeb UNISON gan weithio ym Mhen y Bont ar Ogwr a Chaerdydd am 7 ½ blwyddyn. Ymddeolodd ym mis Ionawr 2006.

Mae wedi bod yn aelod o'r Blaid Lafur ers 39 mlynedd ac yn undebwr trwy gydol ei fywyd gwaith. Roedd yn Ysgrifennydd cangen NALGO ym Merthyr Tudful am 17 mlynedd ac yn aelod o NALGO / UNISON am 49 mlynedd.

Mae'r Maer yn aelod gweithgar o'r Eglwys yng Nghymru. Mae yn Aelod o Gyngor Plwyfol yr Eglwys ac roedd yn warden am 22 mlynedd tan 1998. Mae wedi mynychu Eglwysi Santes Tudful a Dewi Sant ers 60 mlynedd.

Mae yn Ymddiriedolwr ac aelod gwreiddiol o gangen Merthyr Tudful o Crossroads ac mae'n aelod oes, Ymddiriedolwr ac Is Gadeirydd cangen leol yr elusen Mind.

Un arall o'i ddiddordebau mawr yw'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Roedd yn aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Merthyr a Chynnon rhwng 1974 a 1992 ac mae'n aelod/gofalwr o Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr ers 2003 ac mae yn Gadeirydd Gweithredol ers 2007.

Apêl y Maer am 2008/2009 yw I Gangen Merthyr Tudful o Crossroads I Ofalwyr a Changen Leol Mind yr Elusen Iechyd Meddwl.

Mae yn gefnogwr brwd o Glwb Pêl droed Merthyr Tudful ers dros 55 mlynedd.

Cododd Apêl y Maer 2008/2009 dros £26,000 a hoffai'r Cynghorydd Clive T Jones ddiolch i bobl Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am eu cyfraniadau hael a'u cefnogaeth yn ystod ei flwyddyn fel Maer.